**Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Siambrau Angel**

1. Mae'r polisi hwn yn gosod ymrwymiad Siambrau Angel i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 a darpariaethau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cod Ymddygiad y Bar ac i hyrwyddo a datblygu egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mywydau proffesiynol ein haelodau.

2. **YR EGWYDDOR**

Anelwn at osgoi gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, ystyriaethau beichiogrwydd neu famolaeth, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, crefydd neu gred, oedran neu ailbennu rhywedd wrth ymwneud â phobl eraill.

Mae'r nod hwn yn berthnasol i'n holl ymdriniaethau gyda'r amrywiaeth o bobl y rhyngweithiwn gyda nhw yng nghwrs ein bywydau proffesiynol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r categorïau personau canlynol:

Cleientiaid
Clercod a staff eraill y siambrau
Staff y llys
Rhoi cyfarwyddyd i Gyfreithwyr a'u staff
Bargyfreithwyr a chyfreithwyr eraill
Barnwyr
Disgyblion
Myfyrwyr sy'n chwilio am brofiad gwaith ac/neu fini dymhorau prawf.

3. **RECRIWTIO**:

Mae Siambrau Angel yn ymroi i ddull anwahaniaethol mewn perthynas â'i brosesau recriwtio. Yn benodol, mae'n bwriadu sicrhau bod yr holl fargyfreithwyr, disgyblion, gweithwyr a darpar recriwtiaid, gan gynnwys myfyrwyr sy'n chwilio am brofiad gwaith ac/neu fini dymhorau prawf yn cael eu trin yn deg a chyda pharch ym mhob cam o'u recriwtio a'u hymarfer neu gyflogaeth.

Ni fydd neb yn y siambrau'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun mewn perthynas ag unrhyw gynnig am dymor prawf (neu brofiad gwaith neu fini dymor prawf), cyflogaeth na thenantiaeth ar sail hil, crefydd, cred, rhywioldeb, oedran, rhyw, ailbennu rhywedd neu anabledd:

3.1. yn y trefniadau a wneir at y diben o benderfynu i bwy y dylid ei gynnig;
3.2. mewn perthynas ag unrhyw delerau y caiff ei gynnig arnynt; neu
3.3 drwy wrthod neu drwy beidio â'i gynnig iddo neu iddi, a hynny'n fwriadol

## 4. **DARPARU GWAITH**

Ni fydd neb yn y siambrau (boed yn aelod neu'n glerc) yn gwahaniaethu yn erbyn disgybl neu denant:

4.1. mewn perthynas ag unrhyw delerau sy'n berthnasol iddo neu iddi fel disgybl neu denant;
4.2. yn y cyfleoedd am hyfforddiant, neu i ennill profiad sy'n cael eu darparu neu eu gwadu iddo/iddi;
4.3. mewn perthynas â dosbarthu gwaith ymhlith disgyblion a thenantiaid;
4.4. yn y buddiannau, cyfleusterau neu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu neu eu gwadu iddo neu iddi;
4.5. trwy derfynu ei dymor/thymor prawf neu drwy ei roi ef/ei rhoi hi dan unrhyw bwysau i adael y siambrau neu anfantais arall.

Ni fydd clercod Siambrau'r Angel yn derbyn cyfarwyddiadau ar ran y siambrau os bydd cynnig y cyfarwyddiadau hynny'n golygu gwahaniaethu yn erbyn unrhyw gategori o fargyfreithiwr yn y siambrau (e.e. cais i roi cyfarwyddyd i fargyfreithiwr rhywedd penodedig).

## 5. **ABSENOLDEB RHIENIOL**

Nod Siambrau'r Angel yw annog aelodau i ddychwelyd i'r siambrau yn dilyn absenoldeb rhieniol er mwyn parhau i adeiladu arferion llwyddiannus. Ceisia annog a chefnogi aelodau sy'n cymryd amser i ffwrdd yn dilyn geni neu fabwysiadu plentyn i wneud hynny heb ddioddef caledi ariannol. Mae'r polisi'n berthnasol i holl aelodau'r siambrau ni waeth beth yw eu rhywedd.

Mae gan Siambrau'r Angel Bolisi Absenoldeb Rhieniol ar wahân y gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan

## 6. **GWEITHIO HYBLYG**

Mae gan Siambrau Angel bolisi gweithio hyblyg sy'n cwmpasu hawl aelod o'r siambrau i gymryd egwyl yn eu gyrfa, gweithio'n rhan-amser neu oriau

hyblyg neu weithio o adref i'w galluogi i reoli eu cyfrifoldebau teuluol neu gyfrifoldebau eraill neu anabledd a pharhau i ymarfer.

## 7. **MONITRO CYDRADDOLDEB**

Er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn Siambrau Angel, byddwn yn casglu ac yn monitro data personol yn ymwneud â staff, disgyblion, bargyfreithwyr ac ymgeiswyr i'r siambrau o ran eu hil, rhywedd ac unrhyw anableddau. Defnyddir y wybodaeth hon at ddibenion monitro'n unig ac fe'i cedwir yn gyfrinachol yn unol â'n polisïau diogelu data.

Mae gan Siambrau Angel Bolisi Casglu Data Amrywiaeth ar wahân y gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan.

## 8. **AFLONYDDWCH**

Ni fydd aflonyddwch yn cael ei oddef ar unrhyw ffurf yn Siambrau Angel. Mae Siambrau Angel yn ymroi i ddarparu amgylchedd gwaith lle caiff yr holl unigolion, cleientiaid a'r cyhoedd eu trin gydag urddas a pharch. Mae Siambrau Angel yn benderfynol o hyrwyddo amgylchedd gwaith lle caiff pawb eu trin yn gyfartal a chydag urddas a lle gallant ffynnu.

Mae aflonyddwch yn cynnwys unrhyw ymddygiad digroeso'n ymwneud â rhyw, hil, anabledd, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu oedran. Gallai'r fath ymddygiad gymryd sawl ffurf gan gynnwys

- ymddygiad annymunol gan y derbynnydd sy'n cael ei ystyried yn elyniaethus neu'n fygythiol;
- ymddygiad sy'n achosi amgylchedd gwaith gelyniaethus neu fygythiol;
- ymddygiad sy'n creu awyrgylch lle ofnir y bydd gwrthodiad neu gyflwyniad yn cael ei ddefnyddio fel sail am benderfyniadau a allai gael effaith ar y derbynnydd yn y gwaith fel dyrannu gwaith neu denantiaeth

Mae gan Siambrau Angel Bolisi Aflonyddwch ar wahân y gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan.

## 9**. ADDASIADAU RHESYMOL AR GYFER ANABLEDD**

Mae Siambrau Angel yn ymroi i wneud addasiadau rhesymol er mwyn codi neu leihau anfantais sylweddol i bobl anabl sy’n gweithio gyda siambrau neu’n cael gwasanaethau cyfreithiol ganddynt. Mae hyn yn berthnasol i gleientiaid ac ymwelwyr y siambrau yn ogystal â thenantiaid, disgyblion a gweithwyr.

Mae Siambrau Angel yn Adeilad Ethos, Heol y Brenin, Abertawe, SA1 8AS yn natblygiad SA1 Abertawe. Mae gan Adeilad Ethos fynediad i gadeiriau olwyn trwy ramp i’r llawr gwaelod a lifft i swyddfa Siambrau Angel ar y llawr cyntaf ond gellir trefnu cynadleddau ar y llawr gwaelod. Mae lle parcio i ymwelwyr yn y maes parcio tanddaearol i Adeilad Ethos ar gael trwy gadw lle dros y ffôn ymlaen llaw gyda’r clercod cyn cynhadledd. Mae lifft ar gael o’r maes parcio. Os oes angen, gellir trefnu cynhadledd yng nghartref y cleient. Dylai Cyfreithwyr dan Gyfarwyddyd a darparwyr mynediad uniongyrchol hysbysu clercod y siambrau os bydd angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol eraill i ddarpariaeth ein gwasanaethau cyfreithiol i ddarparu ar gyfer cleient neu gyfreithiwr gydag unrhyw anabledd.

Mae gan Siambrau Angel Bolisi Addasiadau Rhesymol ar wahân y gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan.

10. Gall unrhyw aelod o’r siambrau neu staff y siambrau sy’n ystyried eu bod wedi bod yn destun gwahaniaethu droi at weithdrefn achwyno’r Siambrau. Gall unrhyw un arall yr effeithir arnynt droi at weithdrefn gwyno’r Siambrau (fel y gosodwyd ar ein gwefan ac o fewn ein llythyr gofal cleientiaid sydd ar ein gwefan hefyd).

11. Mabwysiadwyd y polisi hwn ar 1 Ionawr 2013 a bydd yn cael ei adolygu bob 2 flynedd.

12. Sara Lewis yw Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Siambrau Angel. Dean Pulling yw Pennaeth ein Pwyllgor Tymhorau Prawf. Ein Swyddog Data Amrywiaeth yw Iain Alba.